| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 15 Tachwedd 2017 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cynghorydd Brian Jones /Angela Loftus |
| Awdur yr Adroddiad: | Angela Loftus |
| Teitl: | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych: Adroddiad Adolygu Drafft, Cytundeb Cyflawni CDLl drafft newydd ac Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd – cymeradwyo dogfennau terfynol i'r cyflwyno i Lywodraeth Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Adolygu CDLl drafft, Cytundeb Cyflawni CDLl drafft newydd a'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac yn amlygu'r materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r dogfennau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn dilyn cymeradwyaeth i ymgynghori drwy benderfyniad dirprwyedig Aelod Arweiniol, a gyhoeddwyd ar 7 Awst 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 9 wythnos rhwng 21 Awst 2017 a 20 Hydref 2017. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr Adroddiad Adolygu CDLl drafft a'r atodiadau, Cytundeb Cyflawni CDLl newydd drafft a'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Gofynnir i'r Pwyllgor Cynllunio argymell y dogfennau terfynol fel y'u diwygiwyd i'w cymeradwyo gan y Cyngor a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Caiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y Cyngor ar 5 Rhagfyr 2017. Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2021 yn ddogfen strategol, ac yn gyfrwng darparu allweddol ar gyfer y Cynllun

Corfforaethol a nifer o strategaethau'r Cyngor megis Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Strategaeth Dai. Felly mae'n bwysig sicrhau ein bod yn cynnal fframwaith polisi cynllunio effeithiol sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Sir i gyfrannu at ddarpariaeth y blaenoriaethau corfforaethol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n argymell cymeradwyo'r canlynol i'r Cyngor Llawn; Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a'r atodiadau; Cytundeb Cyflawni CDLl newydd drafft; a'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd fel y'u diwygiwyd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru (atodwyd fel Atodiad 2).

3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) yn rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Adolygiadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi'u dylunio i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu yn cael eu diweddaru, yn cydymffurfio â'r darpariaethau cyfreithiol diweddaraf, ac yn parhau'n berthnasol er mwyn mynd i'r afael â materion ac amcanion lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynhyrchu ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u nodi yn y 'Llawlyfr Ar Gynlluniau Datblygu Lleol'. Mae'r ddogfen yn amlinellu tri sbardun allweddol ar gyfer adolygiad o'r CDLl:

- Newid cyd-destunol sylweddol (e.e. mewn polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol; mewn cyd-destun lleol e.e. cau safle cyflogaeth sylweddol sy'n tanseilio'r economi leol; mewn pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr);
- Pryderon sylweddol o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol o ran effeithiolrwydd y polisi, cyfraddau cynnydd, ac unrhyw broblemau gyda gweithrediad; neu
- Mae Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015 yn nodi: *'... Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal adolygiad o'r CDLl bob pedair blynedd o leiaf o ddyddiad mabwysiadu'r CDLl;...'* Mabwysiadwyd CDLl Sir Ddinbych ar 4

Mehefin 2013, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y dylai'r adolygiad o'r CDLl ddechrau yn 2017 er mwyn diwallu'r gofyniad deddfwriaethol hwn.

4.2 Mae ystod o ddeddfwriaethau newydd a diwygiedig wedi dod i rym ers mabwysiadu CDLl Sir Ddinbych yn 2013. Y rhai amlycaf yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bydd angen i'r CDLl gael ei adolygu ar ôl ystyried cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth sylfaenol, ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Lluniwyd polisïau'r CDLl yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5), sydd wedi'i ddisodli sawl gwaith (Rhifyn 9 yw'r un diweddaraf) a chyda Nodiadau Cyngor Technegol newydd neu ddiwygiedig i gyd-fynd â nhw.

4.3 Ystyriaethau pwysig yw dyddiad terfyn y Cynllun (2021) a'r angen i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Bydd y CDLl yn dod i ben ym mis Mehefin 2021 a bydd cynllunio i ddatblygu CDLl newydd yn awr yn gymorth i sicrhau parhad o ran cynnal fframwaith polisi cynllunio i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae aelodau'n ymwybodol nad oes gan Sir Ddinbych gyflenwad 5 mlynedd 'technegol' o dir ar gyfer tai, fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 1. Mae hyn wedi'i nodi yn Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl Sir Ddinbych. Bydd yn rhaid i'r Cyngor archwilio sut y gellir mynd i'r afael â hyn yn sgil rhagamcanion aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru.

4.4 Y cam cyntaf yn y broses yw drafftio Adroddiad Adolygu. Diben adroddiad Adolygu'r CDLl yw tynnu sylw at bolisïau lleol neu elfennau eraill o'r CDLl a fabwysiadwyd, y mae'r Cyngor yn credu y dylid eu hadolygu a'u diwygio o bosib. Nid yw'r Adroddiad Adolygu yn amlinellu diwygiadau gwirioneddol. Mae Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad Adolygu drwy benderfyniad cyn cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i'r Cyngor ymgysylltu â budd-ddeiliaid ac ymgynghori ar Adroddiad Adolygu cyn ei gadarnhau a chyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac unrhyw newidiadau i'r ddogfen o ganlyniad. Mae'r dogfennau ynghlwm i'r adroddiad hwn fel Atodiad 2, gydag unrhyw beth sydd wedi ei

ddileu yn ymddangos gyda ~~llinell drwodd~~, ac unrhyw beth sydd wedi'i ychwanegu yn ymddangos fel testun wedi'i amlygu.

4.5 Yn fyr, mae'r Adroddiad Adolygu CDLl drafft wedi'i strwythuro i nodi'n glir yr hyn sydd wedi cael ei ystyried; a lle mae'n debygol o fod angen newidiadau, ynghyd â'r rhesymau, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r Cytundeb Cyflawni CDLl newydd drafft yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a budd-ddeiliaid eraill wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

4.6 Mae gan y Cytundeb Cyflawni ddwy brif ran:

- Yr Amserlen: mae'n nodi'r terfyn amser ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ategol.
- Cynllun Cynnwys Cymunedau: mae hwn yn amlinellu'r ymagwedd tuag at ymgysylltu â'r gymuned; y dull o ran pwy, pryd a sut yr ydym yn bwriadu ymgysylltu a sut y bydd y Cyngor yn ymateb i sylwadau.

**Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd a'r prif newidiadau**

4.7 **Adroddiad Adolygu ac atodiadau**

Roedd y mwyafrif o'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud â'r strategaeth, yn benodol y lefelau twf yn y CDLl presennol a sut y cafodd hyn ei gyflawni. Rhannwyd safbwyntiau rhwng y rhai a oedd yn dymuno gweld lefelau twf yn cael eu cynnal a'r rhai a oedd yn dymuno eu gweld yn lleihau ar gyfer y CDLl newydd. Rôl yr Adroddiad Adolygu yw amlinellu sut mae'r CDLl wedi perfformio a thynnu sylw at feysydd y bydd angen eu hailystyried mewn unrhyw CDLl newydd. Nid rôl yr Adroddiad Adolygu yw argymell pa newidiadau y dylid eu gwneud oherwydd caiff y rhain eu pennu yn dilyn dadansoddiad o sylfaen dystiolaeth gyfredol ac ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ar gamau diweddarach paratoi'r CDLl. Am y rheswm hwn, mae'r mwyafrif o ymatebion drafft y Cyngor yn ailadrodd hyn a'r newidiadau a gynigir fel arfer yw 'Dim' oherwydd nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r sylwadau a ystyrir yn y camau diweddarach i'r Adroddiad Adolygu.

4.8 **Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd**

Ni chodwyd unrhyw faterion.

4.9 **Cytundeb Cyflawni**

Sylwadau sy'n ymwneud â'r rhestr o'r ymgyngoreion a gynhwysir, nid yw'r rhestrau'n gynhwysfawr ac mae cronfa ddata y CDLl yn cynnwys llawer mwy o gofnodion na sydd wedi'u rhestru yn y Cytundeb Cyflawni.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion
- Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau cludiant da
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio ardystiad yr Adroddiad Adolygu diwygiedig, Cytundeb Cyflawni CDLl newydd diwygiedig a'r Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd, a bydd y costau'n cael eu talu o gyllidebau presennol. Bydd costau ymgymryd â'r Adolygiad a chynhyrchu CDLl newydd yn cael ei asesu'n fanwl dros y misoedd nesaf. Mae'r gyllideb ar gyfer yr adolygiad wedi'i chronni'n flynyddol a bydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Bydd yr Asesiad Parhaus o'r Effaith ar Les yn hysbysu datblygiad y CDLl newydd, ynghyd â'r Arfarniad O Gynaliadwyedd. Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi'i gynnal ar gynnwys y Cytundeb Cyflawni drafft ac mae'r casgliadau'n eithaf niwtral neu gadarnhaol. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn nodi amserlen ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori a sut y gwneir hyn. Bydd nifer o'r canlyniadau yn dibynnu ar natur y deunydd sy'n destun ymgynghoriad ond

mae drafft y Cytundeb Cyflawni yn ceisio sicrhau y gall pawb ddweud eu dweud ac y byddwn yn ymateb i'w sylwadau.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r dogfennau wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 9 wythnos. Codwyd ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad yn ystod cyfarfodydd clwstwr diweddar Dinas, Tref a Chyngor Cymuned. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad a'r ymatebion a gafwyd yn yr adroddiad ymgynghori sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd costau ymgymryd â'r Adolygiad a chynhyrchu CDLl newydd yn cael ei asesu'n fanwl dros y misoedd nesaf. Mae Cronfa CDLl Cyngor penodol wedi ei sefydlu at y diben hwn, ac mae'r gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn gwneud cyfraniad blynyddol o £20k tuag ati. Mae'r Gronfa hon wedi'i sefydlu'n benodol i helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw adolygiad a CDLl newydd.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni CDLl newydd drafft yn cynnwys asesiad risg manwl. I grynhoi, mae'r prif risgiau a nodwyd yn cynnwys adnoddau staff, deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol sy'n newid ac oedi yn yr amserlen oherwydd niferoedd uchel o ymatebion i'r ymgynghoriad neu ddiffyg consensws. Mae'r Cytundeb Cyflawni newydd drafft yn cynnwys hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer oedi annisgwyl a bydd cynllunio prosiect cadarn yn gymorth i leihau'r risgiau hyn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015